O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 161 (Cy. 34)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cylchfan Hardwick yr A40, System Gylchu Hardwick yr A40 a Chefnffyrdd yr A40, yr A465 a'r A4042 (Y Fenni, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025

Gwnaed	*7 Chwefror 2025*
Yn dod i rym	*17 Chwefror 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffyrdd yr A40, yr A465 a'r A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cylchfan Hardwick yr A40, System Gylchu Hardwick yr A40 a Chefnffyrdd yr A40, yr A465 a'r A4042 (Y Fenni, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Chwefror 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffyrdd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri, yr A4042 Casnewydd i'r Amwythig, yr A465 Casnewydd i'r Amwythig a'r A465 Castell-nedd I'r Fenni;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 17 Chwefror 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

Cymhwyso

8.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

9. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5 a 6 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Chwefror 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro

Cam 1
Yr A40 Monmouth Road, y Fenni

Yr A40 Monmouth Road, y Fenni o'i chyffordd â Chylchfan Hardwick hyd at y gyffordd i Ystad Ysbytty Fields (Ffordd Gobannium).

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A40 i fynd ar yr A465 i Lan-ffwyst, yr A4143 Merthyr Road a'r A40.
I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sydd am deithio tua'r de ar yr A40.

Cam 2
Yr A465 Ffordd Osgoi Ddwyreiniol y Fenni

O'i chyffordd ag ymyl ffisegol System Gylchu yr A40 tua'r gogledd hyd at gyffordd y B4521.

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A465 i fynd ar yr A40 a'r B4521 i Triley i ailymuno â'r A465.
Traffig sydd am deithio tua'r de ar yr A465 i fynd ar yr A49 (Henffordd i Rosan ar Wy) a'r A40.

Cam 3
Yr A40 System Gylchu Hardwick (Cau'n Rhannol)

O'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick hyd at ganol yr ynys hollti rhwng y mannau i ymuno ac ymadael â'r A465 Ffordd Osgoi Ddwyreiniol y Fenni.

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A465 i fynd ar yr A40 a'r B4521 i Triley i ailymuno â'r A465.
Traffig sy'n teithio tua'r dwyrain sydd am gyrraedd yr A40 neu'r B4598 i fynd ar yr A4042 i Gasnewydd, yr M4, yr A449 yna'r A40.

Cam 4
Yr A40 System Gylchu Hardwick (Cau'n Rhannol)

O gerbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick hyd at ganol yr ynys hollti rhwng y mannau i ymuno ac ymadael â'r A40 i Raglan.

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A465 i fynd ar yr A40 a'r B4521 i Triley i ailymuno â'r A465.
Traffig sydd am deithio tua'r de ar yr A465 i fynd ar yr A49 (Henffordd i Rosan ar Wy) a'r A40.
Traffig sydd am gyrraedd yr A40 neu'r B4598 tua'r dwyrain i fynd ar yr A4042 i Gasnewydd, yr M4, yr A449 i'r A40.

Cam 5
Yr A40 System Gylchu Hardwick (Cau'n Rhannol)

O ganol yr ynys hollti rhwng y mannau i ymuno ac ymadael â'r A40 y Ffordd i Raglan a cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick.

Dargyfeiriad

Traffig sydd am gyrraedd yr A40 neu'r B4598 tua'r gorllewin i fynd ar yr A40, yr A449 i Gasnewydd, yr M4, yr A4042 i Hardwick yna i'r Fenni.

Cam 6
Cefnffordd yr A4042

O'r gerbytffordd gylchredol i Gylchfan Hardwick hyd at bwynt 500 metr i'r de o'r gylchfan.

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r de ar yr A4042 i fynd ar yr A40, yr A449 yna'r M4 i ailymuno â'r A4042.
Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A4042 i fynd ar yr M4, yr A449 a'r A40 i'r Fenni.

Cam 7
Cylchfan Hardwick yr A40 (Cau'n Rhannol) gan gynnwys ffyrdd ymuno ac ymadael yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd a ffordd ymuno yr A4042 o Bont-y-pŵl

O'r ynys ffisegol sy'n ffurfio'r ffordd ymuno rhwng yr A40 y Ffordd i Raglan a'r A4042 y Ffordd i Bont-y-pŵl hyd at yr ynys ffisegol sy'n ffurfio'r man i ymuno â'r gylchfan o'r A40 Monmouth Road.

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r gorllewin ar yr A465 i fynd ar yr A40 Monmouth Road, yr A4143 Merthyr Road a'r A465 yn Llan-ffwyst.
Traffig sydd am deithio tua'r dwyrain ar yr A465 i fynd ar yr A4143 a'r A40 i Gylchfan Hardwick.
Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A4042 i fynd ar yr M4, yr A449 a'r A40 i'r Fenni.
Traffig sydd am deithio tua'r de ar yr A4042 i fynd ar yr A40, yr A449 yna'r M4 i ailymuno â'r A4042.

Bydd traffig yr A40 yn cael ei reoli gan signalau 2-ffordd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i draffig deithio yn wrthglocwedd ar ran o Gylchfan yr A40 / System Gylchu yr A40.

Cam 8
Cylchfan Hardwick yr A40 (Cau'n Rhannol) gan gynnwys ffordd ymuno yr A465 Ffordd Osgoi Ddwyreiniol y Fenni a ffyrdd ymuno ac ymadael yr A40

O'r ynys ffisegol sy'n ffurfio'r ffordd sy'n uno'r A40 Monmouth Road â'r ffordd ymuno rhwng yr A40 y Ffordd i Raglan a'r A4042 y Ffordd i Bont-y-pŵl.

Dargyfeiriadau

Traffig sydd am deithio tua'r gogledd ar yr A465 i fynd ar yr A40 a'r B4521 i Triley i ailymuno â'r A465.

Traffig sydd am deithio tua'r de ar yr A465 i fynd ar yr A49 (Henffordd i Rosan ar Wy) a'r A40.
Traffig sydd am gyrraedd yr A40 neu'r B4598 tua'r dwyrain i fynd ar yr A4042 i Gasnewydd, yr M4, yr A449 yna'r A40.
Traffig sydd am gyrraedd yr A40 neu'r B4598 tua'r gorllewin i fynd ar yr A40, yr A449 i Gasnewydd, yr M4, yr A4042 i Hardwick yna i'r Fenni.

Bydd yr A4042, yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd a'r A40 Monmouth Road yn cael eu rheoli gan signalau 3-ffordd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i draffig deithio yn wrthglocwedd ar ran o Gylchfan yr A40 / System Gylchu yr A40.

Cam 9
Yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd tua'r Gorllewin

O'r gerbytffordd gylchredol hyd at Gylchfan Hardwick tua'r gorllewin am bellter o 1300 o fetrau.

Dargyfeiriad

Dilyn yr A40 Monmouth Road, yr A4143 Merthyr Road hyd at yr A465 yn Llan-ffwyst.

Cam 10
Yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd tua'r Dwyrain

O'r ffordd ymadael i Lan-ffwyst hyd at ymyl y gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Hardwick.

Dargyfeiriad

Dilyn yr A4143 a'r A40 i Gylchfan Hardwick.

Bydd yr holl lwybrau dargyfeirio yn cael eu dangos gan arwyddion traffig priodol a byddant yn amrywio, yn dibynnu ar gyfnod y gwaith a pha ffyrdd sydd ar gau i gerbydau modur a beiciau pedal.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 40mya Dros Dro

Yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd am tua 1.8 cilometr o Gylchfan Hardwick tuag at ffyrdd ymuno ac ymadael yr A4143 yn Llan-ffwyst, ac oddi yno.

Yr A465 Ffordd Osgoi Ddwyreiniol y Fenni am tua 2.5 cilometr o System Gylchu Hardwick hyd at y ffordd i ymuno â'r B4521 (Old Ross Road).

Yr A40 Monmouth Road am tua 0.2 cilometr o Gylchfan Hardwick.

Yr A40 y Ffordd i Raglan am tua 1.6 cilometr o Gylchfan Hardwick.

Cylchfan Hardwick yr A40 ei hun (tua 0.2 cilometr).

Yr A40 System Gylchu Hardwick ei hun (tua 0.7 cilometr).

ATODLEN 3

Terfyn Cyflymder 10mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Cylchfan Hardwick yr A40 ei hun (tua 0.2 cilometr).

Yr A40 System Gylchu Hardwick ei hun (tua 0.7 cilometr).